## ATODLEN 4

### Trosglwyddo tir

# Rhan II

## Rheolau ynglŷn â throsglwyddiadau

**13.**—(1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fydd unrhyw gynigion y dylai ysgol wirfoddol a reolir ddod yn ysgol sefydledig wedi'u cymeradwyo o dan baragraff 8 o'r Atodlen 6 addasedig i'r Ddeddf;

(b) nid yw'r ysgol (fel ysgol wirfoddol a reolir) yn aelod o grwp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto; ac

(c) ni fydd yr ysgol (fel ysgol sefydledig) yn aelod o grwp felly.

(2) Pan fydd yr is-baragraff hwn yn gymwys, bydd unrhyw dir, a ddelid yn union cyn y dyddiad gweithredu gan yr awdurdod addysg lleol at ddibenion yr ysgol wirfoddol a reolir yn cael ei drosglwyddo ar y dyddiad hwnnw i'r corff llywodraethu, ac yn rhinwedd y paragraff hwn, yn breinio ynddo.

(3) Mae is-baragraff (4) yn gymwys—

(a) pan fydd unrhyw gynigion y dylai ysgol wirfoddol a reolir nad yw'n aelod o grwp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto ddod yn ysgol sefydledig wedi'u cymeradwyo o dan baragraff 8 o'r Atodlen 6 addasedig i'r Ddeddf; a

(b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen bydd yr ysgol (fel ysgol sefydledig) yn aelod o grwp felly.

(4) Pan fydd yr is-baragraff hwn yn gymwys, bydd unrhyw dir, heblaw tir a ddelir ar ymddiriedaeth, a ddelid yn union cyn y dyddiad gweithredu gan y corff llywodraethu neu'r awdurdod addysg lleol at ddibenion yr ysgol wirfoddol a reolir yn cael ei drosglwyddo ar y dyddiad hwnnw i'r corff sefydledig, ac yn rhinwedd y paragraff hwn, yn breinio ynddo.

(5) Mae is-baragraff (6) yn gymwys—

(a) pan fydd unrhyw gynigion y dylai ysgol wirfoddol a reolir sy'n aelod o grŵ p y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto ddod yn ysgol sefydledig wedi'u cymeradwyo o dan baragraff 8 o'r Atodlen 6 addasedig i'r Ddeddf; a

(b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen ni fydd yr ysgol (fel ysgol sefydledig) yn aelod o grŵ p felly.

(6) Pan fydd yr is-baragraff hwn yn gymwys, bydd unrhyw dir a ddelid gan y corff sefydledig yn union cyn y dyddiad gweithredu at ddibenion yr ysgolion yn y grŵ p ac a ddefnyddid at ddibenion yr ysgol wirfoddol a reolir neu a ddelid neu a ddefnyddid gan yr awdurdod addysg lleol at ddibenion yr ysgol honno yn cael ei drosglwyddo ar y dyddiad hwnnw i'r canlynol, ac yn rhinwedd y paragraff hwn yn breinio ynddynt,—

(a) ymddiriedolwyr yr ysgol, i'w ddal ganddynt ar ymddiriedaeth at ddibenion yr ysgol; neu

(b) os nad oes ymddiriedolwyr gan yr ysgol, y corff llywodraethu.